# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 CHWEFROR 2012** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL – SYSTEM INTEGREDIG PLANT** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DERBYN SYLWADAU'R PENNAETH TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YN UNOL Â DYMUNIAD Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A DERBYN SYLWADAU'R SWYDDOG STATUDOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd ar ganlyniad gwaith Archwilio Mewnol ar ddatblygiad y System Integredig Plant i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011. Roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor yn crynhoi prif bwyntiau'r gwaith archwilio. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn rhan 2 isod.

1.2 Penderfyniad y Pwyllgor oedd **cytuno i wahodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.**

## 2. CEFNDIR

2.1 Bwriad y System Integredig Plant (ICS – *Integrated Children's System*) oedd cyflwyno trefniadau ffurfiol o fewn awdurdodau lleol i roi sicrwydd ar drefniadau diogelwch plant bregus. Mae ICS wedi ei adeiladu ar sylfaen y Fframwaith Asesu (2001) a'r Canllawiau Amddiffyn Plant (2002 a 2008). Rhyddhawyd nifer o ddogfennau gan Lywodraethau San Steffan a Chymru sy'n diffinio agweddau ICS.

- Cyhoeddwyd ICS 1a (WAGC 21/2005) gyda'r disgwyliad y byddai hwn wedi ei weithredu erbyn 31/12/2006.
- Cyhoeddwyd ICS 1b (WAGC 37/2007) er mwyn ei weithredu erbyn 31/12/2008.
- Yna cyhoeddwyd ICS 1c (WAGC23/2008) gan ddisgwyl gweithrediad erbyn 30/04/2010.

2.2 Mae canllaw statudol 1c bellach wedi ei ddiddymu yn Lloegr, ond nid yw'r disgwyliadau statudol wedi eu llacio eto yng Nghymru, er bod awdurdodau lleol yn disgwyl arweiniad tebyg gan Lywodraeth Cymru ers Hydref 2010.

2.3 Cyflwynwyd 'Adroddiad cynnydd ar berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol' i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar y 30/11/2010 yn egluro pam nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio gydag ICS 1a, er mai'r targed gwreiddiol oedd 31/12/2006. O gydnabod safbwynt diffyg gweithredu 1a, eglurwyd na fydd y prosiect ICS yn cyrraedd ei dargedau allweddol i'r cyfnod hwnnw yn sgil agweddau mwy uchelgeisiol ICS 1b a 1c sydd hefyd eto i'w gweithredu. Trafodwyd y sefyllfa parthed adnoddau a'r pwysau sydd ar y gwasanaeth wrth i gyfeiriadau a nifer o blant mewn gofal gynyddu. Yn sgil canlyniad adroddiad "Babi P", derbyniwyd bod newidiadau ar y gorwel a bod disgwyl i brosiect ICS ddod i ben yn ei ffurf bresennol, er nad oes cadarnhad wedi ei dderbyn hyd yn hyn ei fod am gael ei ddiddymu yng Nghymru. Felly gan fod system ICS, yn ddamcaniaethol, i fod i barhau hyd nes cadarnhad ffurfiol ei fod yn dod i ben, ni ellir felly rhoi sicrwydd archwilio ar y rheolaethau mewn lle gan fod elfen fawr o risg yn parhau i berthyn iddo.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn esboniad gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r diweddaraf o safbwynt datblygiad y System Integredig Plant, ac yn arbennig ynglŷn â'r risgiau y mae Cyngor Gwynedd yn eu hwynebu yn sgil y materion a adroddir arnynt yn rhan 2 uchod**.**